

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 6:CYLLIDEB 2022-23

---

**PENDERFYNIAD**

Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.
  2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
- 

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23. Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2022/23 sy'n gynydd arwyddocaol ar yr hyn y bu i'r Cyngor ei dderbyn mewn blynyddoedd blaenorol. Eglurwyd fod y cynnydd grant o 8.8% sydd yn gyfateb i gynydd gwerth £18.1m mewn ariannu allanol.

Mynegwyd, er gwaethaf y setliad rhesymol, fod nifer o ffactoriau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau. Nodwyd fod cyllideb 2022/23 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac o ganlyniad yn argymhell cynnydd 2.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

### PWNC

Eitem 7:ADRODDIAD DRAFFT ASESIAID O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022

---

### PENDERFYNIAD

Argymhell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo Aseiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn gofyn fod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn asesu nifer o elfennau ar y cyd. Mynegwyd y bydd angen i'r Aseiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Eglurwyd fod yr Adroddiad Arolwg Ymgynghori wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y 3 Chwefror.

Mae angen llunio a chyhoeddi aseiad ar ffurf adroddiad erbyn mis Ebrill 2022, ac y bydd y gwaith yn parhau i baratoi aseiad anghenion poblogaeth Gwynedd a disgwylir y bydd yn barod yn Hydref 2022.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

### PWNC

Eitem 8:PRYDLESU CANOLFAN CEFNFAES i BARTNERIAETH OGWEN

---

### PENDERFYNIAD

Cytunwyd i ddefnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle Canolfan Cefnfaes yn uniongyrchol i Bartneriaeth Ogwen am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn ad-drefnu darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ac adleoli darpariaethau eraill bu i Ganolfan Cefnfaes gael i ddatgan yn weddill i anghenion y Cyngor. Mae cais gan Bartneriaeth Ogwen i gymryd prydles hir dymor o Ganolfan Cefnfaes er mwyn sefydlu Canolfan Fentergarwch.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dafydd Meurig gan ei fod yn Gadeirydd Bartneriaeth Ogwen a Cyng. Catrin Wager gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Bartneriaeth Ogwen, roedd y ddau fuddiant yn rhagfarnu a bu i'r ddau adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 9:PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2022

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i beidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol ym mis Medi 2022.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd y byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o fis Medi 2022 yn golygu £107,190 o bwysau ar gyllideb yr adran Addysg. Pwysleisiwyd erbyn mis Medi 2022, bydd disgyblion cyfnod sylfaen i gyd yn derbyn cinio ysgol am ddim a bydd unrhyw gynnydd yn effeithio ar ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn unig. Nodwyd felly ei bod yn briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol bod peidio cynyddu pris cinio ysgol yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr a Swyddogion canlynol: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams a Dafydd Gibbard gan fod ganddynt blant neu wyrion / wyresau yn derbyn cinio ysgol o fewn y sir. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a nid oedd angen iddynt adael ar gyfer y drafodaeth.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 10:GWELEDIGAETH Y CYNGOR AR GYFER GWEITHIO I'R DYFODOL

---

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd y weledigaeth ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol, a pheidio dychwelyd i'r ffordd o weithio cyn y pandemig.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd yr angen i sut y gall y Cyngor adeiladu ar y manteision a dal gafael yn y buddion a'u profwyd wrth ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus mewn ffordd gwahanol yn ystod y pandeimig a mabwysiaidau trefniadau gweithio mwy hyblyg i staff i'r dyfodol.

Nodwyd y weledigaeth o weithlu yn gallu gweithio'n hyblyg a rhoi eu gorau i gyflawni a darparu gwasanaethau o safon ar gyfer pobl Gwynedd. Yn ogystal a fod y Cyngor yn le da i weithio sydd yn hybu cydbwysedd bywyd a gwaith er lles staff ac er mwyn cadw a denu staff o safon.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 11: CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 - ADOLYGIAD 2022/23

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2022/23 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 3ydd Mawrth 2022.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2018-23 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny mae adolygiad ar ei gynnwys er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

Mae angen i'r Cabinet yn gyntaf gymeradwyo cynnwys y Cynllun, gan gynnwys y diweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, er mwyn argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Fawrth 2022.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABIENT DROS YR ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R ADRAN GYFREITHIOL

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	15 Chwefror 2022
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Mawrth 2022

---

**PWNC**

Eitem 13:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN  
ECONOMI A CHYMUNED

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---